Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **12 Medi 2017** |
| **Amser:** | **14:00 – 16:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh(CM)<br>Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (JW)<br>Heddwyn Thomas, Cyfarwyddwr Ystadau (HT) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Arol. Gwyndaf Bowen (GB)<br>Brieg Dafydd, Cymorth Comisiynu, SCHTh (BD) |
| **Ymddiheuriadau:** | Sharon Richards, Rheolwr Llywodraethu (SR)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DBG)<br>DS Sian Davies, Swyddog Staff (DS SD) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 22/08/2017 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **2182** | **PS i ymgysylltu â SCHTh Gogledd Cymru mewn perthynas â chynnwys trafodaeth ar Ddinasyddion Mewn Plismona ar agenda cyfarfod nesaf GPCG.** | **Cwblhawyd** |
| **2183** | **PS i drefnu diweddariad gan Peter Roderick (PR) cyn 8 Medi.** | **Ar waith – Wythnos \| 21/09** |
| **2184** | **Cyflwyno achos busnes cadarn ar gyfer cyfleuster llety/hyfforddiant newydd i'r CHTh.** | **Ar waith** |
| **2185** | **Tîm Cyfathrebu'r Heddlu i gyhoeddi datganiad i'r wasg ym mis Hydref yn dweud bod HDP ar sefydliad o 100%.** | **Cwblhawyd** |
| **2186** | **Cynnal Seminar Ystadau yn ystod yr hydref.** | **Cwblhawyd – Trefnwyd ar gyfer mis Tachwedd** |
| **2187** | **PG i ofyn am eglurder mewn perthynas â darpariaethau Iechyd Meddwl yn ardal Dyfed.** | **Cwblhawyd** |
| **2188** | **Rhannu ymateb yr Heddlu i'r Comisiynydd Gwyliadwriaeth â'r CHTh cyn cyflwyno.** | **Ar Waith** |

| PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 22/08/2017 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Penderfyniad** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 42** | **Rhoi'r cytundeb ar gyfer gwasanaeth meddygol** | **DBG** |

| | | |
|---|---|---|
| | **fforensig i CNC.** | |

**2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 22 Awst a materion yn codi**

Cytunwyd bod y cofnodion o'r Bwrdd Plismona'n gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

**Cam Gweithredu (2184) –** Cynnal adolygiad o'r sefyllfa gyfredol a'i gyflwyno mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol.

**3. Diweddariad y Prif Gwnstabl**

<u>Diweddariad gweithredol</u>

Nododd y PG bod dau swyddog wedi'u hatal o'r gwaith ar hyn o bryd. Bydd un yn ymddangos yn Llys Ynadon Llanelli yn gynnar ym mis Hydref.

Dywedodd y PG bod nifer o swyddogion wedi dioddef ymosodiad yn ddiweddar, a thynnodd sylw at bolisi effeithiol a oedd wedi derbyn canmoliaeth gan Heddlu Gorllewin Efrog. Mae HDP wrthi'n mabwysiadu polisi tebyg, ac yn y dyfodol, bydd yn rhyddhau datganiadau sy'n manylu effaith sefydliadol ymosodiadau ar staff a swyddogion rheng flaen.

Pwysleisiodd y PG bod llawer o weithgarwch wedi digwydd o fewn yr Heddlu yn ddiweddar, gyda phrif swyddogion yn fodlon â lefel y rhagweithgarwch. Dywedodd y PG y disgwylir i HDP gyflawni statws cryfder llawn erbyn diwedd Hydref.

<u>Diweddariad sefydliadol</u>

Cyhoeddodd y PG fod Shane Williams wedi llwyddo i gael swydd Ditectif Brif uwch-arolygydd. Roedd dau ymgeisydd arall wedi llwyddo yn y broses hefyd.

Cyn hir, bydd y PGC Liane James yn gadael ar secondiad 12 mis i Lywodraeth Cymru.

Bydd adroddiad Effeithlonrwydd AHEM yn cael ei gyhoeddi ar 18 Medi, gyda'r adroddiad Cyfreithlondeb yn cael ei gyhoeddi ar 4 Hydref.

**4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

<u>Lleol</u>

Cadarnhaodd CHTh bod seminar cyllid wedi'i gynnal ar 08/09/2017 a bod pawb wedi croesawu'r seminar. Roedd y Seminar Panel Heddlu a Throseddu'n llwyddiant a chafodd ymateb da gan aelodau panel presennol a newydd.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r ymgynghoriad parhaus mewn perthynas â Strwythur Staffio SCHTh; bydd y manylion terfynol yn cael eu cadarnhau o fewn yr wythnosau sydd i ddod.

**Cam Gweithredu –** SCHTh i rannu strwythur sefydliadol gyda HDP.

Cyhoeddodd CHTh bod y digwyddiad beicio yn Nyfed-Powys wedi'i ohirio tan dymor y gwanwyn 2018.

Cenedlaethol

Adroddodd y CHTh bod Cwmni TGCh yr Heddlu wedi dewis ymgeiswyr ar gyfer y rhestr fer ar gyfer y swydd Prif Swyddog Gweithredol. Bydd yn teithio i Lundain ar gyfer y cyfweliadau terfynol yn ystod yr wythnos yn cychwyn 21/09 fel rhan o'i gylch gorchwyl ar Fwrdd TGCh yr Heddlu.

Fel cyfarwyddwr cysylltiol ar Ganolfan Asesu Cenedlaethol yr Heddlu, dywedodd y CHTh ei fod wedi ei wahodd i arsylwi a rhoi mewnwelediad i'r cwrs Canolfan Asesu Cenedlaethol yr Heddlu ymhen ychydig wythnosau.

Dywedodd y CHTh bod cyfarfod Bwrdd Asedau'r Heddlu/SCHTh ar y cyd wedi bod yn llwyddiannus, gydag ~£80,000 wedi ei arbed o ganlyniad i'r heddlu'n mabwysiadu technoleg yn rhagweithiol.

## 5. Materion i'w Hystyried

### a. Diweddariad ar Ystadau

Sir Gaerfyrddin

Cyhoeddodd y CHTh bod yr achosion busnes ar gyfer Llanelli ac Aberhonddu wedi eu cyhoeddi, gyda'r PG yn nodi bod yr adroddiad yn welliant ar achosion busnes blaenorol. Holodd JW pa un ai a oedd manylion ariannol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad. Dywedodd y PG bod costau'n cael eu cynnwys yn yr achos economaidd (t.4-5).

Er bod rhagolygon blaenorol wedi darogan gostyngiad o ran y nifer sy'n cael eu cadw yn y ddalfa, mae nifer y carcharorion yn y ddalfa wedi codi'n annisgwyl dros y misoedd diwethaf. Esboniodd y PG bod ffocws cynyddol ar ragweithgarwch a 'drwgdybiedigion sy'n weddill' wedi cyfrannu at hyn yn sylweddol.

Tynnodd HT sylw at yr argymhelliad i gadw Rhydaman ar agor yn ogystal â Llanelli. Mae'r achos i gefnogi'r angen i gadw Rhydaman fel gorsaf weithredol yn gost parhaus y bydd angen ei adolygu a'i egluro mewn cynigion yn y dyfodol. Fodd bynnag, pwysleisiodd bod hirhoedledd safle Rhydaman fel adnodd gweithredol yn ased i'r heddlu, a bod gwerth mewn archwilio i'w potensial ymhellach.

Datgelodd y PG ei fod ef a'r DBG wedi trafod y posibilrwydd o adolygiad mewn perthynas â'r rheng rhingyll. Byddai rhingylliaid ychwanegol sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol

ar gyfer gweithdrefnau'r ddalfa'n caniatáu ar gyfer ymagwedd fwy hyblyg a chyllidol gyfrifol tuag at rediad gweithredol gorsafoedd heddlu gwledig.

Mewn perthynas â'r cynigion a nodir yn yr adroddiad, dywedodd y CHTh y byddai angen darparu costau mwy manwl er mwyn bodloni'r angen ar gyfer ymagwedd sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth. Pwysleisiodd JW y byddai angen achos busnes cadarn cyn y gellir gwneud penderfyniad.

**Cam Gweithredu -** HT i baratoi ac adolygu costau manwl erbyn y Bwrdd Plismona nesaf, gyda chymorth yn cael ei roi gan adran gyllid HDP a'r PSA.

Powys

Dywedodd HT mai'r prif bwynt yn yr ymgynghoriad oedd nad oedd cydweithio â Merthyr bellach yn ddewis ymarferol oherwydd heriau gweithredol ac oblygiadau ariannol. Roedd y prif argymhelliad o fewn yr adroddiad yn tynnu sylw at yr angen i gadw lleoliad priodol yn ne sir Powys. Tynnodd JW sylw'r Bwrdd at gynnydd o ran cost adnewyddu arfaethedig yr orsaf gyfredol. Cytunodd HT a dywedodd bod dewisiadau pellach yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd.

**Cam Gweithredu –** HT i symud trafodaethau ymlaen â phartneriaid yn ystod y bythefnos nesaf.

Cynghorodd y PG am yr angen ar gyfer cownter blaen yng nghanol tref Aberhonddu er mwyn sicrhau amlygrwydd heddlu cyson ac er mwyn gwasanaethu troedle dyddiol. Pwysleisiodd HT bod canlyniad yr adroddiad yn glir iawn; rhagolwg o gynnydd yn nifer y carcharorion a'r angen ar gyfer cadw dalfa yn nhref Aberhonddu neu'r cyffiniau agos.

**Cam Gweithredu –** HT i gyflwyno dewisiadau ar Aberhonddu yng Nghyfarfod Bwrdd Ystadau mis Hydref.

Sir Benfro

Mae gan HT olwg ar gyflwyno strategaeth ar gyfer Sir Benfro ar gyfer y dyfodol gyda lleoliad amgen ar gyfer Aberdaugleddau'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae trafodaethau cydweithiol gyda gwasanaethau golau glas eraill yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd.

Cyhoeddodd y CHTh y byddai llythyrau'n cael eu hanfon at gynghorwyr cymuned a thref lleol yn eu hysbysu y byddai gorsafoedd cymynrodd yn cael eu gwerthu.

## 6. Materion i'w Hystyried

### a. Gwasanaethau Meddygol Fforensig

Cyhoeddodd JW ei bod hi wedi holi Adran Gaffael HDP a'i bod hi'n fodlon â'r ymateb a'r sefyllfa. Mae'r ddarpariaeth yn newid o fod yn un sy'n cael ei harwain gan feddyg i un

sy'n cael ei harwain gan nyrs, a fydd yn caniatáu ar gyfer gwell darpariaeth ledled yr ardal heddlu.

Argymhelliad yr adroddiad oedd gwobrwyo'r cytundeb i CNC. Roedd y CHTh a'r Bwrdd yn unfrydol gytûn yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd.

**Penderfyniad: Rhoi'r cytundeb ar gyfer gwasanaeth meddygol fforensig i CNC.**

### b. Consenswys Cymru Gyfan

Dywedodd CM mai barn adran gyfreithiol HDP oedd bod y papur yn aneglur ac yn seiliedig ar theori yn bennaf. Cytunodd y CHTh a dywedodd bod cytundeb eang â'r syniad mewn egwyddor, ond awgrymodd y dylid ceisio eglurder pellach er mwyn pennu llawn gwmpas y cynnig. Cytunodd y PG a nododd fod angen mwy o fanylion am ddarpariaeth adnoddau gweithredol cyn y gwneir penderfyniad.

**Cam Gweithredu:** Gofyn am eglurder pellach yng Ngrŵp Plismona Cymru Gyfan.

## 7. Unrhyw Fusnes Arall

### a. Arian cyfatebol ar gyfer Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig

Dywedodd y PG ei fod wedi cwrdd ag awduron y papurau yn ddiweddar, a daethpwyd i'r casgliad y gallai HDP, drwy Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig, chwarae rôl fwy o ran atal defnydd o'r ffyrdd i droseddwyr a hwyluso cynhyrchu incwm drwy gydweithio a gwaith partneriaeth.

Holodd y CHTh pa un ai a oedd y gofyniad ar gyfer disgyblu 600 o yrwyr ychwanegol y flwyddyn er mwyn cyflawni arian cyfatebol yn gyraeddadwy, ac na fyddai'n golygu gosod targedau diangen o fewn yr Heddlu. Nododd y PG y byddai'r ymgyrch yn cael ei harwain gan gudd-wybodaeth a bod tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu ei fod yn gyraeddadwy.

Dywedodd y CHTh ei fod yn fodlon â'r cynnig, ond pwysleisiodd y dylai'r heddlu fod yn ofalus; ni ddylid cynyddu'r rhaglen gyfalaf Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig.

### b. Ymgynghoriad Iechyd Meddwl Hywel Dda

Dywedodd y PG fod y Prif Arolygydd Amanda Diggens wedi paratoi crynodeb o'r ymgynghoriad a gyflawnwyd gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda, gan amlinellu pwyntiau allweddol mewn perthynas â phlismona gweithredol.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 12/09/17 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2189 (cysylltiedig â 2184)** | Cynnal adolygiad o'r sefyllfa gyfredol a'i gyflwyno mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol. | **PG** |
| **PB 2190** | SCHTh i rannu strwythur sefydliadol gyda HDP. | **PS** |
| **PB 2191** | HT i baratoi ac adolygu costau manwl erbyn y Bwrdd Plismona nesaf, gyda chymorth yn cael ei roi gan adran gyllid HDP a'r PSA. | **HT** |
| **PB 2192** | HT i gynnal trafodaethau anffurfiol ag awdurdod unedol Powys yn ystod y bythefnos nesaf. | **HT** |
| **PB 2193** | HT i gyflwyno dewisiadau ar Aberhonddu yng Nghyfarfod Bwrdd Ystadau mis Hydref. | **HT** |
| **PB 2194** | Rhoi'r cytundeb ar gyfer gwasanaeth meddygol fforensig i CNC | **CHTh** |
| **PB 2195** | Gofyn am eglurder pellach yng Ngrŵp Plismona Cymru Gyfan. | **CHTh** |